# PHILLIPS, WILLIAM (1822 - 1905), llysieuegwr a hynafiaethydd

**Enw:** William Phillips
**Dyddiad geni:** 1822
**Dyddiad marw:** 1905
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llysieuegwr a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwyddoniaeth a Mathemateg
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 4 Mai 1822 yn Llanandras yn sir Faesyfed, ond tref Amwythig oedd hendre ei deulu, a bu ei hynafiaid yn fwrdeisiaid yno mor fore â 1634. Wedi bod mewn ysgol yn Llanandras, prentisiwyd ef gyda'i frawd a oedd yn deiliwr yn Stryd Fawr Amwythig ac yn berchen busnes dda y daeth yntau wedyn yn bartner ynddi. Datblygodd ddiddordeb (tua 1861) mewn llysieueg, ac fe'i gwnaeth ei hunan yn awdurdod cydnabyddedig ar lysieueg ei sir yn gyffredinol - efe a sgrifennodd y bennod ar lysieueg yn y *Victoria County History of Shropshire*; ond ei faes arbennig oedd ffyngoedd (*fungi*), ac y mae ei *Manual of British Discomycetes*, 1887, ffrwyth ugain mlynedd o ymchwil, yn safonol. Ymddiddorai hefyd - yn gynyddol felly - mewn hynafiaethau; yr oedd yn un o gychwynwyr y ' Shropshire Archaeology and Natural History Society,' a chyfrannodd lawer i'w thrafodion, i'r *Bye-Gones*, ac i *Shropshire Notes and Queries*, y bu'n olygydd iddo. Talodd sylw neilltuol i gyfnod y Rhyfel Cartrefol yn y sir, ac argraffodd yr ' Ottley Papers,' a recordiau'r frawdlys chwarterol o 1652 hyd 1659. Rhoes drefn ar recordiau tref Amwythig, ac am hynny cafodd 'ryddid' y dref. Ac yntau'n Fethodist, ac yn bregethwr lleyg, cyhoeddodd yn 1896 *Early Methodism in Shropshire*. Bu farw 23 Hydref 1905.

## Awdur


**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)


## Ffynonellau


*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 22 Tachwedd 1905

yr ail atodiad i'r *Oxford Dictionary of National Biography*

rhestr o 49 o'i bapurau llysieuegol yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1932-3


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Phillips

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 39370064

Wikidata: Q15994689


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu